


Beibl i Blant
yn cyflwyno



Daniel yn
ffau'r
llewod



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Jonathan Hay

addaswyd gan: Mary-Anne S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts


Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.


Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.




Dareius oedd brenin newydd Babilon. Roedd e'n
ddyn clyfar. Dewisodd cant a dau ddeg o bobl
orau'r deyrnas
i'w helpu
i reoli.




Yna dewisodd tri i fod yn ben arnyn nhw. Roedd Daniel yn un o'r tri chomisiynydd hynny.



Roedd y Brenin Dareius â meddwl mawr o Daniel.
Fe wnaeth e ystyried rhoi'r deyrnas gyfan o dan
ei ofal.



Roedd yr arweinwyr eraill yn genfigennus, ac roedden nhw eisiau ffeindio bai ar Daniel er mwyn cael dweud hynny wrth y brenin.




Ond roedden nhw'n methu dod o hyd i unrhyw sgandal am Daniel. Roedd bob amser yn ffyddlon i'r brenin. Roedd hefyd yn ofalus ac yn alluog, ac yn gwneud popeth hyd eithaf ei allu.



Roedd yr arweinwyr cenfigennus yn gwybod am un ffordd yn unig o osod trap i Daniel. Roedden nhw'n gwybod na fyddai dim byd yn stopio fe addoli Duw Israel.






Dyma elynion Daniel yn meddwl am gynllun. Fe wnaethon nhw wneud cyfraith newydd i'r brenin ei harwyddo. Roedd y gyfraith yn gorchymyn fod pawb i weddio ar y brenin - a neb arall. Byddai unrhyw un oedd yn torri'r gyfraith yn cael ei daflu i ffau'r llewod.



Dyma'r brenin Dareius yn arwyddo'r gyfraith newydd.



Doedd dim ots gan Daniel
am y gyfraith newydd. Fe
wnaeth beth oedd e wastad
yn ei wneud. Aeth ar ei liniau
o flaen ei ffenestr agored dair
gwaith bob dydd i
weddio ar Dduw.





Rhuthrodd
yr arweinwyr
cenfigennus i
ddweud hyn wrth
y brenin. Doedd
dim dewis gan y
brenin Dareius -
roedd yn rhaid
iddo arestio
Daniel. Roedd yn
rhaid ufuddhau
i'r gyfraith.






Roedd yn
rhaid i Daniel
gael ei ladd.
Er i'r brenin
geisio meddwl
am ffordd i'w
helpu, doedd
hi ddim yn
bosibl newid
y gyfraith.



Cafodd Daniel ei ddedfrydu i gael ei daflu i ffau'r llewod. Cyn i hyn ddigwydd, dywedodd y brenin Dareius wrtho, "Bydd dy Dduw, yr un rwyf ti'n ei addoli mor ffyddlon, yn dy achub di!"



Methodd y brenin a chysgu'r noson honno. Yn gynnar iawn y bore wedyn, rhuthrodd y brenin at ffau'r llewod.






Dyma'r brenin yn galw,
"Daniel, Gwas y Duw
byw. Ydy'r Duw wyt ti'n
ei addoli mor ffyddlon
wedi gallu dy achub di
rhag y llewod?" Oedd
e'n disgwyl ateb?
Wyddon ni ddim. Ond
dyma Daniel yn ateb!



Dywedodd
Daniel, "O
frenin! Mae fy
Nuw wedi anfon ei
angel i gau cegau'r
llewod, a dŷn nhw
ddim wedi mrifo i
o gwbl! Wnes i
ddim drwg
i chi, O
frenin!"



Roedd y brenin wrth ei fodd! Dyma fe'n gorchymyn
codi Daniel allan o'r ffau.



Roedd y brenin yn
gwybod fod Duw wedi
achub Daniel, a bod
gelynyon Daniel yn
elynyon i Dduw.



Dyma'r brenin yn
gorchymyn fod y dynion
oedd wedi ei dwyllo i
arwyddo'r gyfraith
ddrwg i'w taflu i
ffau'r llewod.
A dyma'r
llewod yn
eu bwyta.



Roedd y Brenin Dareius am i'r byd wybod fod Duw'r Nefoedd wedi amddiffyn Daniel, ei was ffyddlon. Ysgrifennodd lythyr yn gorchymyn i bawb addoli'r Duw byw. Ac fe gafodd Daniel fod yn arweinydd unwaith eto.



Daniel yn ffau'r llewod
Stori o Air Duw, y Beibl
sydd i'w gweld yn
Daniel 6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130



Y Diwedd



Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

